Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Rhentu Cartrefi: llety gwely a brecwast a ddefnyddir at ddibenion digartrefedd ymateb i'r ymgynghoriad.

Yn cau 15 Medi 2023

Ymateb a gyflwynwyd drwy'r e-bost

**Cwestiwn 1 – A ydych yn cytuno â'r polisi o eithrio llety gwely a brecwast a ddarperir i fodloni dyletswyddau darparu tai i'r digartref rhag bod yn gontract meddiannaeth?**

**Ydw**

Er mwyn cefnogi'r dull 'neb heb help' rydym ni'n cytuno mewn egwyddor â'r diwygiadau arfaethedig. Fodd bynnag, hoffem amlygu y dylai'r newidiadau hyn gynnwys mesurau diogelu priodol o safbwynt y busnes a'r tenantiaid. Nid yw llety gwely a brecwast wedi'i ddylunio i fod yn ddatrysiad hirdymor, ac rydym ni'n pryderu, drwy gyflwyno'r cynnig hwn, ei fod yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddefnyddio llety o'r fath am gyfnodau hirach. Rydym ni hefyd yn ymwybodol y gall yr ansicrwydd a achosir gan natur fyrdymor llety gwely a brecwast achosi pryder i blant ac oedolion ynghylch ble fyddan nhw'n cysgu ac mae hynny wedyn yn eu hatal rhag ymgysylltu â gwasanaethau a chefnogaeth, fel y rheiny sy'n galluogi cydlyniant cymunedol, yn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamfanteisio troseddol ac yn cefnogi pobl sy'n camddefnyddio sylweddau.

Fel Rhwydwaith rydym ni'n ymwybodol o'r argyfwng tai ac i sicrhau bod pobl yn cael llety diogel byddai hyn yn gam tuag at gynnig diogelwch i denantiaid. Fodd bynnag, rydym ni'n teimlo bod angen mwy o fuddsoddiad mewn mwy o dai cymdeithasol yng Nghymru er mwyn darparu datrysiad hirdymor priodol.

**Cwestiwn 2 – A ydych yn meddwl bod darparwyr llety gwely a brecwast yn debygol o roi'r gorau i ddarparu llety dros dro i'r rhai sy'n ddigartref, os yw'r llety yn ddarostyngedig i gontract meddiannaeth?**

**Ddim yn gwybod**

Rydym ni'n credu, pe bai darparwyr llety gwely a brecwast yn destun contract meddiannaeth, y byddan nhw'n llai tebygol o gynnig darpariaeth fyrdymor oherwydd y posibilrwydd o ddyletswyddau hirdymor dan gontract o'r fath. Fe allan nhw ystyried hyn fel rhywbeth â goblygiadau cyfyngol ar eu busnes, a all effeithio ar eu hincwm neu eu rhyddid i ddiwygio cyfeiriad eu busnes os ydynt yn destun dyletswyddau ychwanegol. Ar y llaw arall fe all hyn ddarparu incwm cyson sy'n gallu lleddfu unrhyw effaith negyddol yn sgil yr argyfwng costau byw a natur dymhorol llety gwely a

brecwast; ond gall hyn gael effaith hirach ac andwyol ar dwristiaeth oherwydd y byddai llai o ddewisiadau o dan llety.

**Cwestiwn 3 – A yw'r cynnig yn lliniaru'r risg o ostyngiad yn narpariaeth y llety gwely a brecwast sydd ar gael fel llety dros dro, oherwydd y gallai fel arall ddod yn ddarostyngedig i gontract meddiannaeth?**

**Ddim yn gwybod**

Mae'r Rhwydwaith yn cytuno bod y cynnig hwn yn ymddangos fel petai'n lliniaru'r risg o leihad mewn argaeledd llety gwely a brecwast ar gyfer darparu llety dros dro. Dylai barhau fel un o'r dewisiadau olaf yn hytrach na'r dewis cyntaf gan nad yw'n darparu llawer o sicrwydd i'r rheiny sy'n defnyddio'r ddarpariaeth, ond fe all fod yn fwy addas na hostel i blant ac oedolion mewn perygl. Mae'n bwysig nodi bod busnesau gwely a brecwast yn fusnesau annibynnol sy'n gallu gwrthod rhoi caniatâd i ddefnyddio'r eiddo fel llety i bobl ddigartref. Hoffem bwysleisio (fel y cydnabyddir yn yr ymgynghoriad) nad yw defnyddio llety gwely a brecwast yn sefydlogi'r argyfwng tai a bod angen mwy o dai cymdeithasol addas a hygyrch, hirdymor a byrdymor, ar draws Cymru.

Mae'r Rhwydwaith yn credu y byddai gwneud busnesau gwely a brecwast yn destun contractau meddiannaeth yn peri risg ychwanegol y byddai'r busnesau hynny sydd ar hyn o bryd yn llenwi'r bwlch yn penderfynu rhoi'r gorau i ddarparu eu gwasanaethau ac y byddai hynny wedyn yn gadael Gwasanaethau Tai Lleol gyda hyd yn oed llai o opsiynau i amddiffyn dinasyddion agored i niwed.

**Cwestiwn 4 – Ydych chi'n ystyried bod unrhyw risgiau ychwanegol i aelwydydd digartref yn uniongyrchol, neu i'r dull ehangach o atal digartrefedd o ganlyniad i'r cynigion hyn?**

**Ydw**

**Cwestiwn 5 - Os felly, nodwch y risgiau hyn a'r mesurau lliniaru posibl.**

Mae yna wastad risg, drwy alluogi landlordiaid i beidio â bod yn destun contractau meddiannaeth, y byddai unigolion a/neu deuluoedd sy'n aros yn eu llety gwely a brecwast am gyfnod hirach na'r disgwyl yn methu manteisio ar y mesurau diogelu priodol sydd wedi'i dylunio i'w hamddiffyn nhw (h.y. troi allan ar fyr rybudd). Rydym ni hefyd yn ymwybodol o'r posibilrwydd o fod angen cynnal gwiriadau diogelu ychwanegol ar gyfer y rheiny sy'n rhedeg llety gwely a brecwast pan fydd plant ac oedolion diamddiffyn yn aros yno.

Os yw teuluoedd neu unigolion wedi'u lleoli mewn llety gwely a brecwast ac wedi setlo yno oherwydd y cyfnod estynedig o amser maent wedi treulio yno, yna ceir

pryderon ynghylch eu lles wrth eu symud oddi wrth rwydweithiau cefnogi sydd wedi'u sefydlu h.y. ysgol / y gymuned.

Rydym ni hefyd yn ymwybodol y gall yr ansicrwydd a achosir gan natur fyrdymor llety gwely a brecwast achosi pryder i blant ac oedolion ynghylch ble fyddan nhw'n cysgu ac mae hynny wedyn yn eu hatal rhag gallu ymgysylltu â gwasanaethau a chefnogaeth, fel y rheiny sy'n galluogi cydlyniant cymunedol, yn lleihau ymddygiad cymdeithasol a chamfanteisio troseddol ac yn cefnogi pobl sy'n camddefnyddio sylweddau.

Fel Rhwydwaith rydym ni'n deall y gall hon fod yn sefyllfa na ellir ei hosgoi, fodd bynnag, ble bynnag y bo'n bosibl, dylai cyfnodau aros mewn llety gwely a brecwast fod mor fyr â phosibl a thrwy eithriad.

**Cwestiwn 6: A ydych yn ystyried bod yna unrhyw risgiau ehangach posibl neu effeithiau andwyol i'r cynnig?**

**Ddim yn gwybod**

Rydym ni eisoes wedi lleisio ein pryderon ynghylch y posibilrwydd y gall y mesur lliniaru hwn roi unigolion mewn perygl o aros mewn llety gwely a brecwast am gyfnodau hirach na'r dymuniad. Fodd bynnag, nid yw defnyddio llety gwely a brecwast yn rhywbeth newydd ac rydym ni'n sylweddoli bod timau tai a digartrefedd yn eu defnyddio pan nad oes opsiynau eraill ar gael iddynt ac o'r herwydd dylid cael gweithdrefnau lleol sefydledig ar waith.

Mae'n bosibl y bydd effeithiau negyddol ar ddiogelwch a chydlyniant cymunedol oherwydd na fydd y rheiny sy'n byw mewn llety dros dro, fel llety gwely a brecwast, bob tro yn datblygu cysylltiadau cymunedol a'u bod nhw wedi dysgu peidio â datblygu cysylltiadau rhy agos gydag ardal neu unigolion. Gall y diffyg cydlyniant hwn arwain at ddiffyg ymgysylltu â gwasanaethau, cefnogaeth ac addysg neu gynnydd mewn sbwriel, ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau neu berygl o gamfanteisio.

**C7. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynnig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

Nid ydym yn credu y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg, nac yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'n rhaid i wybodaeth fod ar gael i bawb sy'n rhan o'r broses, naill ai'n Gymraeg neu'n Saesneg, yn cynnwys canllawiau a gweithdrefnau.

**C8. Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif neu gynyddu effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

Nid oes gennym ni sylwadau ar sut y gellir newid y cynnig i gael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg, ar yr amod bod y manylyn a geir yng nghwestiwn 7 yn cael ei roi ar waith.

**Cwestiwn 9: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y gofod hwn i sôn amdanynt.**

Tra bod defnyddio llety gwely a brecwast ddim yn rhywbeth newydd, mae'r Rhwydwaith yn awgrymu y dylid cael canllawiau ffurfiol ar eu defnydd gyda chontractau awgrymedig gyda pherchnogion llety gwely a brecwast cymeradwy i ddiogelu'r bobl sy'n aros yno. Mae mesurau diogelu fel gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer perchnogion os yw plant neu oedolion diamddiffyn yn mynd i fod yn aros yno yn un enghraifft.